**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Comisiynydd Plant Cymru,
Rocio Cifuentes

21 Tachwedd 2025

**Gohebiaeth yn dilyn y sesiwn graffu flynyddol**

Annwyl Rocio,

Diolch i chi a Tomos am ddod i sesiwn graffu flynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar 12 Tachwedd 2025. Roedd y sesiwn yn addysgiadol ac yn adeiladol, gan roi cyfle gwerthfawr i ni gael deialog ystyrlon â'ch swyddfa.

Fel y soniwyd yn ystod y sesiwn, roedd rhai materion ychwanegol yr oeddem am eu codi gyda chi, ac roeddem yn teimlo y gellid mynd i'r afael â'r rhain yn effeithiol yn ysgrifenedig. Gan hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod:

1. Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar amrywiaeth o faterion arwyddocaol sy'n ymwneud ag addysg - gan gynnwys diwygiadau'r cwricwlwm ac ADY, safonau ysgolion, recriwtio a chadw athrawon, absenoldeb disgyblion ac aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod Senedd Ieuenctid Cymru yn edrych ar ymddygiad mewn ysgolion. I ba raddau fyddech chi'n dweud y gallai cyfuniad o'r materion addysg hyn greu'r 'storm berffaith' ar gyfer addysg oedran gorfodol y bydd angen mynd i'r afael â hi yn y Seithfed Senedd? Faint ydych chi'n pryderu am y cyfuniad hwn o heriau sy'n wynebu addysg?

2. I ba raddau ydych chi'n ymwybodol bod y geiriad "hybu safonau mewn ysgolion a cholegau" wedi'i ddileu o bedair blaenoriaeth ddatganedig y Prif Weinidog, ac a ydych chi'n ystyried bod y newid hwn yn arwydd o lai o bwyslais ar wella addysg? Cododd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog y mater hwn mewn llythyr at y Prif Weinidog a'r ymateb dyddiedig 17 Medi.

3. Dywed eich adroddiad blynyddol yn dweud bod eich gwaith achos yn cynnwys "llawer iawn o bryderon" am wasanaethau cymdeithasol, yn enwedig lleoliadau'n methu, oedi gydag asesiadau, a mynediad at eiriolaeth i blant mewn gofal. Sut fyddech chi'n asesu effaith gwaith craffu ein Pwyllgor ar ddiwygio radical o'r cymorth i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal? A oes unrhyw beth wedi newid ers cyhoeddi ein hadroddiad yn 2023?

4. Mae trafnidiaeth yn fater sydd wedi codi mewn sawl un o'n hymchwiliadau ac mae eich maniffesto ar gyfer etholiadau'r Senedd yn galw am drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc dan 18 oed, a hefyd am adolygiad llawn o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008 a'r canllawiau cysylltiedig. Beth yw eich asesiad o sut mae'r cynllun peilot presennol o docynnau am £1 yn mynd? I ba raddau y bydd hyn yn mynd i'r afael â rhai o'r materion teithio gan ddysgwyr rydych chi'n ymdrin â nhw?

5. Rydych chi wedi cyhoeddi maniffesto ar gyfer etholiadau'r Senedd 2026. Beth ydych chi'n ei weld fel y flaenoriaeth fwyaf ar gyfer newid deddfwriaethol ym mlwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd?

Roedd cytundeb hefyd y byddech chi'n darparu ystadegau i'r Pwyllgor ynglŷn â sut y clywodd y plant a'r bobl ifanc sy'n gofyn am gymorth gan eich tîm am eich swyddogaeth gwaith achos am y tro cyntaf.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 10 Rhagfyr 2025.

Yn gywir,

Buffy Williams AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.